10 Hydref 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau – Crynodeb Cenedlaethol

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Tim Buckle, Sara-Jane Byrne a Gwilym Bury. Rheolwyd y prosiect gan Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG.

Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.


© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Adroddiad cryno 5

Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau yn glir ac wedi'u deall yn dda ar y cyfan.

Adroddiad manwl 8

Mae angen i gynghorau gyfleu'n well sut y byddant yn mynd ati i wneud newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau i ateb heriau ariannol a heriau eraill yn y tymor canolig 8

Dylai cynghorau bennu trefniadau llywodraethu clir ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau 11

Dylai cynghorau ystyried nifer o opsiynau ar gyfer newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau wedi'u seilio ar dystiolaeth briodol er mwyn dod i benderfyniadau 17

Dylai cynghorau ymgynghori â rhanddeiliaid ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau ac mae'r pwysigrwydd o ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynigion ar gyfer newid gwasanaethau yn y dyfodolyn debygol o gynyddu 22

Dylai cynghorau ddatblygu trefniadau systematig i fonitro'r effaith o wneud newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau 30

Dylai cynghorau adolygu eu trefniadau penderfynu yn rheolaidd a gwneud newidiadau mewn prosesau penderfynu ar newid gwasanaethau lle bo'n briodol 32

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Wrth ymateb i ostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus ac i alw cynyddol am rai gwasanaethau, mae'r holl gynghorau unedol yng Nghymru yn parhau i wneud penderfyniadau am ffurf a lefel y gwasanaethau a ddarperir yn eu hardal yn y dyfodol. Yn aml, bydd penderfyniadau o'r fath yn ddadleuol, yn ennyn cryn ddiddordeb yn lleol a gallant effeithio'n sylweddol ar yr unigolion a grwpiau sy'n gysylltiedig.

2 Mae hefyd yn ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chanllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn datgan: 'Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'[1]. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Llywodraeth Leol hefyd yn cydnabod y bydd angen sicrhau bod y mecanweithiau llywodraethu sydd eu hangen i gynnal gweithio rhanbarthol yn cadw Aelodau Etholedig ar ganol y broses penderfynu a chraffu.[2]

3 Mae'n bwysig, felly, fod trefniadau cynghorau ar gyfer penderfynu yn gadarn ac yn addas i'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, trefniadau i graffu ar gynigion ac opsiynau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn penderfyniadau. Yn ogystal â hyn, bydd angen sicrhau bod y rheini sydd mewn rolau llywodraethu allweddol yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n briodol, ac yn cael cymorth priodol i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

4 Ein diffiniad o newid mewn gwasanaeth yw unrhyw newid sylweddol o ran darparu gwasanaethau a/neu unrhyw newid sylweddol mewn gwasanaethau a brofir gan ddefnyddwyr gwasanaethau allanol. Byddai newid mewn gwasanaeth yn gallu cynnwys, er enghraifft, newid yn y ffordd o ddarparu'r gwasanaeth, yn lefel y gwasanaeth a ddarperir, yn argaeledd y gwasanaeth neu yng nghost y gwasanaeth.

5 I ddibenion yr adolygiad hwn, nid yw'r diffiniad o 'newid mewn gwasanaeth' yn cynnwys newidiadau mewn gwasanaethau swyddfa gefn, neu newidiadau mewn gwasanaethau rheng flaen drwy ailstrwythuro rheolaeth neu newidiadau eraill, er enghraifft, er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd, nad oes bwriad iddynt gael effaith ar y gwasanaethau a brofir gan ddefnyddwyr gwasanaethau allanol.

1 Llywodraeth Cymru, Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, 2016
2 Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad, 31 Ionawr 2017

6 Yn ystod 2016-17 roeddem wedi adolygu'r trefniadau ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau ym mhob un o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru. Yn ystod gwanwyn a haf 2017, rydym wedi rhoi adroddiad lleol ar wahân i bob un o'r 22 o gynghorau. Mae sylwadau yn yr adroddiadau lleol hyn am y trefniadau llywodraethu sydd gan bob cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau. Bydd yr adroddiadau ar gael ar ein gwefan yn ystod 2017 wedi iddynt fynd drwy'r prosesau pwyllgor ffurfiol sydd gan bob cyngor.

7 Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw darparu mewnwelediad, rhannu arferion presennol ac ysgogi sgyrsiau a thrafodaethau pellach rhwng cynghorau a sefydliadau eraill. Rhoddir y prif sylw yn yr adroddiad i enghreifftiau o ymarfer presennol er mwyn rhoi sbardun i rannu dulliau o weithredu a gwersi a ddysgwyd.

8 Nid ydym yn awgrymu bod yr enghreifftiau o ymarfer a nodwyd yn dangos ymarfer blaengar o reidrwydd nac y dylai'r arferion hyn gael eu dilyn ym mhob man. Maent yn dangos ffyrdd diddorol o lywodraethu newid mewn gwasanaethau sydd wedi'u defnyddio gan rai cynghorau ac y gallai fod yn fuddiol i sefydliadau eraill eu hystyried yn ein barn ni. Rydym am dynnu sylw at wahanol arferion a all ysgogi dadl a thrafodaeth am ddulliau eraill o weithredu sy'n bosibl, neu elfennau ohonynt. Rydym wedi cynnwys manylion cyswllt ar gyfer pob enghraifft o ymarfer.

9 Wrth adolygu trefniadau ar gyfer penderfynu ar newidiadau mewn gwasanaethau ym mhob un o'r 22 o gynghorau ac ystyried ansawdd y trefniadau penderfynu, roeddem wedi chwilio am y canlynol:

- rhesymau clir ynghylch sut a pham mae cynghorau'n gwneud newidiadau mewn gwasanaethau;
- trefniadau clir sy'n dangos pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau sydd wedi'u deall yn dda gan gynghorwyr a swyddogion;
- arfarniadau cynhwysfawr o opsiynau ynghyd â gwybodaeth ddigonol a chraffu effeithiol i gyfrannu at benderfyniadau ynghylch newidiadau mewn gwasanaethau;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch newidiadau mewn gwasanaethau, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau/ dinasyddion ac aelodau anweithredol;
- threfniadau ar gyfer monitro a gwerthuso effaith newidiadau mewn gwasanaethau; a
- trefniadau i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer penderfynu ar newidiadau mewn gwasanaethau.

10 Roeddem wedi edrych ar lawer math o newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Ymhlith y mathau o newid mewn gwasanaeth roeddem wedi'u hystyried yr oedd:

- cynnydd yng nghost gwasanaethau i ddefnyddwyr yn cynnwys, er enghraifft, llogi meysydd chwaraeon, casglu gwastraff swmpus a rheoli plâu;
- newid oriau agor cyfleusterau – er enghraifft, safleoedd amwynder dinesig a chanolfannau galwadau cwsmeriaid;
- newid o ran pwy sy'n darparu rhai gwasanaethau – o'r cyngor i ymddiriedolaethau neu wirfoddolwyr – er enghraifft, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a neuaddau cymuned; ac
- ad-drefnu'r ffordd o ddarparu gwasanaethau gan y cyngor yn cynnwys cau rhai cyfleusterau ac agor rhai newydd mewn meysydd fel gwasanaethau cymdeithasol.

11 Daethom i'r casgliad bod:

Trefniadau llywodraethu ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau yn glir ac wedi'u deall yn dda ar y cyfan.

12 Nid ydym wedi cynnwys unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn, gan ein bod eisoes wedi cyflwyno cynigion perthnasol ar gyfer gwella i bob cyngor yn ei adroddiad lleol ei hun.

# Adroddiad manwl

## Mae angen i gynghorau gyfleu'n well sut y byddant yn mynd ati i wneud newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau i ateb heriau ariannol a heriau eraill yn y tymor canolig

### Beth roeddem yn chwilio amdano

13 Roeddem wedi chwilio am dystiolaeth bod gweledigaeth a strategaeth glir gan gynghorau ar gyfer penderfynu ar gynigion am newid mewn gwasanaethau, a'r rheini wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid ac yn gysylltiedig â'r weledigaeth strategol gyffredinol. Ochr yn ochr â hyn, roeddem wedi chwilio am amcanion clir ar gyfer newidiadau mewn gwasanaethau y gall cynghorau eu defnyddio i fesur y cynnydd a'r effaith ddilynol. Roeddem hefyd wedi chwilio am dystiolaeth bod cynghorau wedi dechrau ystyried sut y byddant yn sicrhau fod penderfyniadau am newidiadau mewn gwasanaethau yn rhoi sylw i amcanion llesiant y cyngor ac i egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid ydym yn disgwyl y bydd trefniadau penderfynu penodol 'ar wahân' gan gynghorau ar gyfer newidiadau mewn gwasanaethau, nac y bydd gan gynghorau weledigaeth ar wahân o reidrwydd o'r ffordd y byddant yn newid gwasanaethau.

### Beth roeddem wedi'i ddarganfod

14 Ar y cyfan, mae cynghorau wedi datblygu gweledigaethau a blaenoriaethau clir sy'n darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau mewn gwasanaethau. Mae rhai cynghorau wedi mynd yn bellach ac wedi amlinellu gweledigaeth gliriach o'r ffordd y mae'r cyngor yn debygol o newid yn y tymor canolig yng nghyd-destun heriau ariannol a heriau eraill. Mae rhai cynghorau wedi pennu meini prawf y byddant yn eu defnyddio i lywio penderfyniadau sy'n ymwneud â lleihau cyllidebau a newid gwasanaethau. Roeddem hefyd wedi darganfod nad yw amcanion penodol ar gyfer cynigion unigol am newid gwasanaeth bob amser yn glir neu wedi'u nodi'n fanwl pryd y gwneir y penderfyniad. Mae cynghorau'n dechrau cyflwyno mecanweithiau i sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am newidiadau mewn gwasanaethau ond mae'r rhain ar wahanol gamau yn eu datblygiad, ac mae pob un ohonynt ar ddechrau'r broses hon.

## Rhai enghreifftiau o'r dulliau sydd wedi'u mabwysiadu:

- **Cyngor Sir Powys – Dull Comisiynu:**

  Mae'r Cyngor wedi penderfynu defnyddio dull 'comisiynu' gan ei ddiffinio fel a ganlyn: 'ailddylunio gwasanaethau o gwmpas anghenion cymunedau ac unigolion, rhai heddiw ac yfory, a phenderfynu wedyn sut orau a phwy a ddylai ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.'[3] Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r dull hwn at ei wasanaethau hamdden ac mae'n bosibl y caiff ei ymestyn i gynnwys rheoli a chynnal eiddo, priffyrdd, trafnidiaeth ac ailgylchu. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Strategol Lle, paul.griffiths@powys.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Cynllun Model Gweithredu:**

  Gan gydnabod bod angen datblygu ffordd wahanol o reoli gostyngiadau mewn cyllidebau, mae'r Cyngor wedi datblygu dull o weithredu lle mae nifer o ffrydiau gwaith sydd wedi'u seilio ar Gynllun Model Gweithredu (CMG). Mae'r CMG yn gosod datganiad arweiniol, egwyddorion a disgwyliadau o ran y ffordd y bydd y Cyngor yn gweithredu. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Andrew Mogford, Rheolwr Newid Busnes, andrew.mogford@merthyr.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – egwyddorion i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau am newidiadau posibl mewn gwasanaethau:**

  Mae'r Cyngor wedi cytuno ar nifer o egwyddorion sydd wedi'u hystyried ganddo yn ei drafodaethau am newidiadau posibl mewn gwasanaethau a chynigion am arbedion, er enghraifft, newid oriau agor Canolfannau Gofal Cwsmeriaid y Cyngor a'i Safleoedd Amwynder Dinesig. Yr egwyddorion yw:

  – diogelu gwasanaethau rheng flaen lle gallwn a lleihau gwariant ar gostau rheoli a gweinyddu;

  – cynyddu ffioedd a thaliadau lle bo'n briodol;

  – lleihau yn hytrach na dileu gwasanaethau lle bo modd;

  – canolbwyntio ar flaenoriaethau;

  – ystyried ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau (cydweithio, partneriaethau, ymddiriedolaethau cymunedol, etc).[4]

  I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Stephen Harris, Pennaeth Dros Dro Cyllid Corfforaethol, harrisr@caerphilly.gov.uk.

3 Cyngor Sir Powys, Cynllun Gwella Corfforaethol 2016-2020: Diweddariad 2017, Mawrth 2017
4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Budget Proposals 2015/16 and Medium Term Financial Strategy 2015/2018, Cyfarfod y Cyngor – 25 Chwefror 2017, tudalen 31

## Arddangosyn 1: pwyntiau dysgu – gweledigaeth a strategaeth

| Pwyntiau dysgu – gweledigaeth a strategaeth |
| --- |
| Byddai cynghorau'n gallu:<br>• mabwysiadu meini prawf/egwyddorion ar gyfer penderfynu ar newidiadau mewn gwasanaethau er mwyn:<br>– helpu penderfynwyr i barhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a gytunwyd;<br>– helpu i gyflymu penderfyniadau;<br>– rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid ymlaen llaw;<br>– dangos y sail resymegol i benderfyniadau yn fwy tryloyw; a<br>– darparu ffocws ar gyfer craffu ar benderfyniadau penodol.<br>• gosod amcanion penodol a mesuradwy ar gyfer pob newid mewn gwasanaeth er mwyn bod yn fwy tryloyw, a helpu hefyd i ganolbwyntio ar ystyried pa opsiynau yw'r rhai mwyaf priodol i'w dilyn a pham;<br>• gosod amcanion fel y cam cyntaf i sefydlu fframwaith effeithiol ar gyfer mesur yr effaith o newidiadau mewn gwasanaethau; ac<br>• ymgynghori â rhanddeiliaid ar y 'math' o gyngor y maent am ei weld er mwyn helpu i ddarparu dilysrwydd a fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a all fod yn fwyfwy anodd dros y tymor canolig. |

## Dylai cynghorau bennu trefniadau llywodraethu clir ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau

### Beth roeddem yn chwilio amdano

15 Roeddem wedi chwilio am eglurder yn rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau, a bod y rolau a chyfrifoldebau hyn wedi'u deall yn dda gan gynghorwyr a swyddogion uwch. Roeddem hefyd yn disgwyl bod cynghorau wedi rhoi trefniadau clir ar waith i sicrhau bod penderfyniadau i newid gwasanaethau yn gyson â gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol perthnasol. Roeddem hefyd wedi chwilio am dystiolaeth bod cynghorau'n meithrin gallu priodol i ddatblygu a chyflawni newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau mewn ffordd effeithiol. Mae hyn yn cynnwys pennu adnoddau priodol, yn cynnwys arian a phobl, a sicrhau bod y rheini sy'n gyfrifol am benderfynu ar newidiadau mewn gwasanaethau yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r rolau hynny.

### Beth roeddem wedi'i ddarganfod

16 Cawsom fod trefniadau ar gyfer datblygu a phenderfynu ar newidiadau mewn gwasanaethau yn glir ac wedi'u deall yn dda ar y cyfan gan swyddogion ac aelodau, yn cynnwys deall pwy sy'n atebol ac yn gyfrifol am benderfyniadau.

17 Mae rhai cynghorau wedi datblygu trefniadau penodol neu ychwanegol ar gyfer datblygu a phenderfynu ar newidiadau mewn gwasanaethau, yn cynnwys sefydlu byrddau trawsnewid neu fyrddau prosiect neu eu tebyg, sydd fel arfer yn cynnwys nifer o aelodau a swyddogion uwch. Mae cynghorau eraill yn sicrhau newidiadau mewn gwasanaethau drwy eu trefniadau llywodraethu presennol.

18 Mae cynghorau'n dilyn nifer o lwybrau gwahanol i feithrin gallu ar gyfer sicrhau newidiadau mewn gwasanaethau. Bydd rhai'n gwneud defnydd o allu allanol i'w helpu i sicrhau newidiadau, tra bydd eraill yn dibynnu ar strwythurau rheoli presennol i hyrwyddo newidiadau, a rhai'n sefydlu timau corfforaethol pwrpasol i ddarparu arbenigedd mewn meysydd fel rheoli prosiectau a systemau syniadaeth ddarbodus.

19 Ceir cyfle i ystyried ffyrdd o feithrin gallu swyddogion wrth baratoi cynigion ac achosion busnes. Yn yr un modd, mae lle i wella'r cymorth i gynghorwyr er mwyn iddynt gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol yn y broses newid gwasanaethau un ai fel aelodau gweithredol neu aelodau craffu, er enghraifft, drwy asesu cadernid achosion busnes ac arfarniadau o opsiynau neu asesu a monitro effaith cynigion. Bydd cyfleoedd hefyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu ar y pynciau hyn er mwyn cael y cyfle mwyaf posibl i ymgysylltu â chyd-aelodau a dysgu oddi wrthynt.

## Rhai enghreifftiau o arferion a dulliau o weithredu a gyflwynwyd gan gynghorau:

- **Cyngor Sir Fynwy – Rhaglen 'Dyfodol Sir Fynwy':**

  Mae'r Cyngor wedi datblygu rhaglen 'Dyfodol Sir Fynwy' i bennu'r heriau sy'n wynebu'r sir, drwy gydweithio â staff, cymunedau ac eraill i nodi atebion a gweithredu fel hwylusydd er mwyn eu cyflawni. Mae'r rhaglen yn ceisio helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn gallu pennu arbedion a darparu cyllideb gytbwys yn y tymor byr a chanolig gan greu'r gallu i ystyried ac ymateb i rai o'r heriau cymhleth sy'n wynebu ei gymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Kellie Beirne neu Matthew Gatehouse, kelliebeirne@monmouthshire.gov.uk neu matthewgatehouse@monmouthshire.gov.uk.

- **Cyngor Sir Ddinbych – Fframwaith corfforaethol ar gyfer darparwyr gwasanaethau amgen:**

  Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen eglurder ynghylch ei sail resymegol ar gyfer darparu gwasanaethau drwy sefydliadau allanol. Gan rag-weld y defnydd o Fodelau Darparu Amgen yn y dyfodol, mae wedi datblygu dull cynhwysfawr o werthuso opsiynau ar gyfer y dyfodol. Mae'r dull hwn yn cynnwys nifer o gwestiynau 'llywodraethu critigol' i'w gofyn gan Dîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor a'i aelodau etholedig wrth ystyried modelau darparu amgen ac wrth gymeradwyo achosion busnes cysylltiedig. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Richard Weigh CPFA, Pennaeth Cyllid/Swyddog A.151, richard.weigh@denbighshire.gov.uk.

- **Cyngor Sir y Fflint – Rheoli drwy Fyrddau Rhaglen:**

  Yn dilyn cyfnod o gynllunio busnes dwys i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a ddechreuodd yn 2013, roedd y Cyngor yn ymwybodol o'r heriau o gynllunio a chydgysylltu'r holl raglenni newid mawr. Roedd yr ymwybyddiaeth o hyn, ynghyd â chynnig gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella ar sail cynllunio arbedion effeithlonrwydd wedi cymell y Cyngor i fabwysiadu dull newydd o reoli rhaglenni.

  Mae'r prif raglenni newid ym Mhortffolios y Prif Swyddogion yn cael eu rheoli a'u monitro drwy Fyrddau Rhaglen. Mae'r rhain yn gyson o ran e u strwythur, eu pwrpas, a'u trefniadau cymorth ac adrodd ac maent wedi'u bwriadu i ddarparu dull effeithiol o gydgysylltu'r cynllunio, y gweithredu a'r atebolrwydd ar gyfer rhaglenni newid mawr sy'n cynnwys nifer o brosiectau a ffrydiau gwaith (y dibynnir arnynt i sicrhau arbedion effeithlonrwydd). Nid cyrff penderfynu yw'r Byrddau gan eu bod yn gallu gwneud argymhellion i'r Pwyllgor neu grŵp priodol. Mae'r Byrddau, a sefydlwyd yn 2015, yn gweithio ar sail agenda a chylch gwaith cyffredin ac mae cynllunwyr rheoli rhaglenni ar eu cyfer. Mae aelodaeth y Byrddau yn cynnwys swyddogion perthnasol ynghyd â'r deiliad portffolio, ac mae'r Arweinydd a Dirprwy Arweinydd yn cael eu gwahodd i holl gyfarfodydd y Byrddau.

  Yn dilyn adolygiad o fodelau'r Byrddau, eu rheolaeth a'u heffeithiolrwydd yn Ebrill 2017, cytunwyd ar strwythurau diwygiedig ar gyfer y Byrddau. Mae'r rhain yn cyfateb i bortffolios y Cyngor heblaw am y Bwrdd Corfforaethol a Chwsmeriaid ar y cyd a'r Bwrdd Asedau a Chyfalaf. Pwrpas y Byrddau yw goruchwylio a helpu i gyflawni cynlluniau busnes y portffolios ar gyfer 2017-23. Ymhlith yr eitemau sefydlog ar yr agenda gyffredin y mae Camau Cynllunio Busnes, Rheoli Cynllunio Busnes yn ystod y Flwyddyn, Rheoli Ariannol yn ystod y Cyfnod, ynghyd â Pholisi a Strategaeth Portffolios yn ôl yr angen. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Karen Armstrong, karen.armstrong@flintshire.gov.uk.

- **Cyngor Bro Morgannwg – ffurfio trefniadau craffu ar sail amcanion llesiant:**

  Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2016-2020 ac wedi amlinellu ei weithgareddau arfaethedig i ddangos sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant i Gymru. Mewn cysylltiad â hyn, mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro ei drefniadau craffu yn unol â'i amcanion llesiant. Mae'r Cyngor wedi ailbennu cylchoedd gwaith pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i adlewyrchu pedwar canlyniad llesiant y Cyngor, gan gadw un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Rob Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr, drthomas@valeofglamorgan.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – trefniadau Rheoli Prosiectau:**

  Mae'r Cyngor wedi sefydlu Rhaglen Rheoli Newid i'w helpu i gyflawni ei raglen newid, gyda chylch gorchwyl clir. Mae rôl y Bwrdd hwn wedi'i chrynhoi fel a ganlyn: 'govern and direct the MTCBC [Merthyr Tydfil County Borough Council] Change Management Programme within the strategic direction set by the Council.' Mae Grŵp Llywio Rheoli Newid gan y Cyngor sydd â'r rôl ganlynol: 'challenge and monitor approved programmes, projects and actions under the direction of the Programme SRO (Senior Responsible Officer)'[5] Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu Tîm Newid Busnes sy'n helpu rheolwyr gwasanaethau i ddarparu opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Andrew Mogford, Rheolwr Newid Busnes, andrew.mogford@merthyr.gov.uk.

5 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Change Management Programme – Steering Group Terms of Reference. Fersiwn Rhif 1.3, Awst 2016

- **Cyngor Caerdydd – Rhaglen Datblygu Sefydliadol:**

  Ym Mai 2014, sefydlodd y Cyngor Raglen Datblygu Sefydliadol (DS) mewn ymateb i nifer o heriau critigol gwahanol, yn cynnwys y dirywiad sylweddol yn sefyllfa ariannol y Cyngor, pwysau seiliedig ar y galw am wasanaethau, a pherfformiad annigonol gan nifer o wasanaethau statudol.

  Mae Bwrdd DS, sydd â'r gwaith o adolygu'r cynnydd ar brosiectau newid strategol ac yn cynnwys yr uwch dîm rheoli, yn cwrdd yn fisol. Mae'r Bwrdd DS yn cael ei gynorthwyo gan ddau Fwrdd Rhaglen: Bwrdd Ail-lunio Gwasanaethau a Bwrdd Galluogi a Chomisiynu, y ddau ohonynt yn cwrdd yn fisol ac yn ymdrin â'r holl brosiectau newid gwasanaethau yn y Rhaglen DS. Bydd Bwrdd Adolygu Buddsoddiadau yn ystyried ac yn cymeradwyo'r holl raglenni a phrosiectau sydd â goblygiad ariannol.

  Mae'r rhaglen yn cael ei chynorthwyo hefyd gan dîm o swyddogion sy'n hwyluso camau i newid gwasanaethau drwy gynnig cyngor a chymorth. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Dean Thomas, Rheolwr y Rhaglen DS, dean.thomas@cardiff.gov.uk.

- **Cyngor Sir Ceredigion – Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd:**

  Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd yn rhan o'i drefniadau i sicrhau trawsnewid ac effeithlonrwydd. Mae'r grŵp yn cynnwys Arweinydd y Cyngor, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Strategol. Mae'r Panel hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth drawsbleidiol a gwleidyddol gytbwys o Gadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, neu eu cynrychiolwyr, sydd heb hawl i bleidleisio. Rolau'r Grŵp yw:

  – bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi ynghylch cynllunio ar gyfer y dyfodol i ymateb i gyfyngiadau ariannol sydd ar y Cyngor;

  – helpu i ddatblygu syniadau ac opsiynau newydd a fydd o gymorth i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol; ac

  – ystyried yr effaith o arbedion ar safonau a pherfformiad y gwasanaethau a ddarperir[6].

  I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Russell Hughes-Pickering, Pennaeth Perfformiad a'r Economi, russell.hughes-pickering@ceredigion.gov.uk

6 Cyngor Sir Ceredigion, Report to Cross Party Transformation and Efficiency Consultative Group To consider the future operating arrangements and structure of the Council's Transformation programme, 12 Medi 2016

- **Cyngor Sir Caerfyrddin – Rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid:**

  Mae rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid (TAN) y Cyngor wedi'i sefydlu ers rhai blynyddoedd. Mae TAN yn rhedeg nifer o brosiectau penodol ei hun ond, yn ogystal â hyn, gall gwasanaethau alw ar TAN i'w helpu i newid gwasanaethau yn eu maes. Mae'r rhaglen yn helpu i ad-drefnu prosesau gwasanaethau a sicrhau arbedon effeithlonrwydd drwy ddileu camau diangen mewn prosesau drwy syniadaeth systemau 'darbodus'. Mae rhaglen TAN wedi helpu gwasanaethau o lawer math i sicrhau newid, ac mae hyn yn arwain weithiau at gyflwyno Gwobr TAN i wasanaeth lle mae rhaglen wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau newid cadarnhaol. Mae'r Tîm TAN, wrth gydweithio â gwasanaethau, yn cael ei weld gan y Cyngor yn elfen allweddol yn llwyddiant y rhaglen. Bydd swyddogion mewn meysydd gwasanaeth sydd wedi dilyn prosesau TAN yn gweithredu wedyn fel 'cenhadon' ac ymarferwyr. Bydd y swyddogion hyn wedyn yn helpu gwasanaethau eraill i ddatblygu a sicrhau newid, ac yn rhoi cymorth i wreiddio'r diwylliant a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i hyrwyddo newid ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae Bwrdd Rhaglen TAN gan y Cyngor hefyd sy'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r broses, o dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr gyda chyfraniad gan Aelodau'r Bwrdd Gweithredol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Jon Owen, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid, jowen@carmarthenshire.gov.uk.

Arddangosyn 2: pwyntiau dysgu – trefniadau llywodraethu

| **Pwyntiau dysgu posibl – trefniadau llywodraethu** |
|---|
| Byddai cynghorau:<br>• lle maent eisoes wedi sefydlu timau sydd ag arbenigaeth mewn rheoli a hyrwyddo prosesau newid gwasanaethau, yn gallu chwilio am gyfleoedd i rannu gallu;<br>• yn gallu adolygu'r sgiliau a'r gallu ar gyfer sicrhau newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau gan gynnwys, er enghraifft, sgiliau rheoli prosiectau a chynllunio busnes. Gall hyn helpu i ddangos bylchau penodol yn y wybodaeth, sgiliau neu arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni amcanion y Cyngor ar gyfer newid gwasanaethau a chyfrannu at gynllunio rhaglenni hyfforddi yn y dyfodol; ac<br>• yn gallu cydweithio i ddatblygu dulliau o rannu gallu, yn cynnwys dysgu o ddulliau a phrofiadau ei gilydd, ac i ddarparu hyfforddiant a gweithgareddau datblygu eraill. |

## Dylai cynghorau ystyried nifer o opsiynau ar gyfer newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau wedi'u seilio ar dystiolaeth briodol er mwyn dod i benderfyniadau

### Beth roeddem yn chwilio amdano

20 Roeddem wedi chwilio am dystiolaeth bod cynghorau'n ystyried nifer o opsiynau cyn penderfynu ar newidiadau mewn gwasanaethau, a bod digon o wybodaeth yn cael ei ddarparu i benderfynwyr am bob opsiwn er mwyn iddynt wneud penderfyniadau. Rydym yn disgwyl gweld bod manylion am y goblygiadau posibl ym mhob opsiwn yn cael eu darparu mewn ffordd gytbwys i benderfynwyr. Byddai hyn yn cynnwys yr effaith ar gyllid, perfformiad gwasanaethau a safonau ac ar farn rhanddeiliaid yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau. Ar gyfer pob opsiwn, byddem hefyd yn disgwyl gweld asesiad trwyadl o risg a'r goblygiadau i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd.

21 Roeddem hefyd wedi chwilio am drefniadau sy'n dryloyw ac a oedd yn rhoi cyfleoedd i'r cyhoedd graffu ar y cynigion ac opsiynau lle'r oedd yn briodol.

### Beth roeddem wedi'i ddarganfod

22 Fel arfer mae'r rhan fwyaf o'r cynghorau'n darparu dewis o opsiynau i benderfynwyr wrth ystyried newidiadau mewn gwasanaethau. Fodd bynnag, mae ansawdd a chwmpas y wybodaeth a ddarparwyd i benderfynwyr am wahanol opsiynau yn amrywio rhwng cynghorau ac oddi mewn iddynt. Ceir gwahaniaethau hefyd o ran y cyfleoedd i graffu ar gynigion i newid gwasanaethau rhwng cynghorau. Mewn rhai cynghorau, mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cymryd rhan yn gynnar drwy gynnig sylwadau am gynigion ac mae cyfleoedd i ddylanwadu ar eu datblygiad. Mae'r rhan a gymerir drwy graffu yn llai systematig mewn cynghorau eraill, a gall ddigwydd yn ddiweddarach yn y broses penderfynu, pan fydd llai o gyfle o bosibl i ddylanwadu ar ddatblygiad cynigion neu i lunio penderfyniadau. Mae ansawdd yr asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb o ganlyniad i newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau yn amrywiol, ac mae rhai cynghorau wedi nodi bod diffyg data yn eu rhwystro rhag gwella'r asesiadau.

23 Ceir gwahaniaethau o ran y dewis o feini prawf a ddefnyddir i asesu arfarniadau o opsiynau rhwng cynghorau ac, mewn rhai achosion, o fewn cynghorau. Er bod rhai cynghorau wedi mabwysiadu meini prawf safonol ar gyfer arfarnu opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau, ceir dull llai systematig mewn cynghorau eraill. Er nad yw defnyddio meini prawf cyson yn rhoi sicrwydd y bydd arfarniadau o opsiynau yn fwy cadarn, mae'n lleihau'r risg o beidio â chynnwys ystyriaethau allweddol. Mae hyn, yn ei dro, yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y risgiau anochel sy'n aml yn gysylltiedig â newid mewn gwasanaethau yn cael eu rheoli'n dda.

## Rhai enghreifftiau o'r dulliau a ddefnyddir:

- **Cyngor Sir Fynwy – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phenderfynu:**

  Mae nifer o gynghorau wedi cynnwys ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn adroddiadau neu brofformas achos busnes a gyflwynir gyda chynigion am newidiadau mewn gwasanaethau. Er enghraifft, yn adroddiadau Cyngor Sir Fynwy am argymhellion i newid gwasanaethau, ceir profforma asesu ar sail Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd wedi'i lenwi er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor fod cynigion yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'i phennu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Hazel Clatworthy, hazelclatworthy@monmouthshire.gov.uk.

- **Cyngor Sir Powys – Offeryn Asesu Effaith Integredig:**

  Mae'r Cyngor yn defnyddio offeryn asesu effaith integredig ar gyfer pob newid mewn gwasanaeth. Mae'r offeryn yn cynnwys meini prawf cynhwysfawr sy'n cwmpasu'r effaith ar flaenoriaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, risgiau, cydraddoldeb, y Gymraeg, y pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhianta corfforaethol, cydlyniant cymunedol a'r gweithlu, ac asesiad o'r gallu i'w gyflawni.

  Roedd y Cyngor wedi dechrau defnyddio'r offeryn yn ystod 2015-16. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â David Powell, Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau, david.powell@powys.gov.uk.

- **Cyngor Sir y Fflint – asesiad o'r effaith o gynigion am newid sy'n gydgysylltiedig:**

  Mae'r Cyngor wedi datblygu offeryn asesu yn rhan o'r dull o gynllunio busnes. Mae'r offeryn yn canfod effeithiau cronnol o newidiadau mewn gwasanaethau ar wahanol grwpiau o gleientiaid. Mae'r dull hwn yn rhoi trosolwg ar yr effeithiau a nodwyd ar gyfer grwpiau cynrychiadol o bobl sydd, er enghraifft, yn rhannu nodweddion gwarchodedig, neu'n profi tlodi. Mae'r offeryn asesu effeithiau cronnol yn helpu i adolygu'r effeithiau a risgiau sy'n gysylltiedig â phob cynnig am newid. Bydd hefyd yn rhoi trosolwg ar yr effeithiau cronnol ar bobl â nodweddion gwarchodedig ac ar gamau lliniaru. Mae'r dull hwn yn asesiad o effeithiau ehangach sy'n ategu'r Asesiad perthnasol o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob newid mewn gwasanaeth.

  I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Karen Armstrong, karen.armstrong@flintshire.gov.uk.

- **Cyngor Dinas Casnewydd – gwneud defnydd o ddata wrth ystyried newidiadau mewn gwasanaethau:**

  Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn gwaith i ddatblygu data gofodol a proffiliau o wardiau i'w defnyddio yn ei asesiadau llesiant. Mae'n disgwyl y bydd hyn yn darparu gwell gwybodaeth iddo ar gyfer penderfyniadau ar newid gwasanaethau yn y dyfodol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Shaun Powell, digital@newport.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Rhaglennu gwaith Trosolwg a Chraffu:**

  Ar ddechrau'r flwyddyn, mae blaenraglen waith o 12 eitem yn cael ei gosod ar gyfer pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu; bydd rhai, ond nid y cyfan, o'r eitemau hyn yn cael eu rhaglennu ar gyfer cyfarfodydd penodol. Ym mhob cyfarfod Pwyllgor, canolbwyntir ar ddwy eitem yn unig er mwyn sicrhau bod y materion yn cael eu hystyried yn fanwl. Trafodir y Flaenraglen Waith wedyn ar ddechrau pob cyfarfod Pwyllgor, pan fydd yr eitemau sy'n weddill o'r 12 gwreiddiol yn cael eu hystyried, ynghyd â rhestr o eitemau sydd heb flaenoriaeth. Bydd y Pwyllgor yn asesu'r eitemau hyn o ran perthnasedd ac wedyn yn eu cynnwys yn y Flaenraglen Waith. Drwy wneud hyn, mae agendâu'r Pwyllgorau yn gallu ymateb i faterion sy'n codi, yn cynnwys craffu ymlaen llaw ar newidiadau mewn gwasanaethau neu agweddau penodol ar newid mewn gwasanaethau, fel ystyriaeth i gwestiynau ymgynghori cyn eu cyhoeddi er mwyn hyrwyddo newid mewn gwasanaethau. Gall pwyllgorau fod yn hyblyg wrth bennu dyddiadau cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod materion allweddol yn cael eu cynnwys yn ôl yr angen. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gary Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gary.jones@bridgend.gov.uk.

- **Cyngor Caerdydd – Methodoleg ar gyfer gwerthuso newidiadau mewn gwasanaethau drwy fabwysiadu Model Darparu Amgen:**

  Fel rhan o'i Raglen Datblygu Sefydliadol (DS), mae'r Cyngor wedi datblygu methodoleg ar gyfer gwerthuso newidiadau mewn gwasanaethau drwy fabwysiadu Model Darparu Amgen (MDA). Mae'r fethodoleg hon, a'r matrics sgorio ar ei chyfer, yn cynnwys y meini prawf ar gyfer gwerthuso a'r cwestiynau i'w hystyried gan swyddogion. Mae'r cwestiynau'n ymwneud â risg, cyfleoedd incwm, cadw dylanwad mewn penderfyniadau, hyblygrwydd i newid y dull o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, a pherfformiad gweithredol. Mae'r fethodoleg yn darparu dull cyson a strwythuredig o asesu pob MDA gan sicrhau bod y Cyngor yn ymdrin â materion allweddol o ran cyllid, risg, rheolaeth, a pherfformiad ar gyfer pob opsiwn.

  Mae'r Cyngor yn defnyddio'r fethodoleg hon i arfarnu opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau drwy'r MDAau ar gyfer canolfannau hamdden a gwasanaethau seilwaith. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Dean Thomas, Rheolwr y Rhaglen DS, dean.thomas@cardiff.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Dull Rheoli Prosiectau ar gyfer newid gwasanaethau:**

  Mae pob cynnig am newid mewn gwasanaeth yn cael ei drafod ar sail egwyddorion rheoli prosiectau. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu proses Rheoli Perfformiad, ac wedi datblygu Llawlyfr Rheoli Prosiectau. Mae cynigion i newid gwasanaethau yn cynnwys asesiad o'r buddion disgwyliedig yn ogystal ag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau ac Asesiad Risg. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Louise Payne, Arweinydd Perfformiad, Gwella a Phartneriaethau (Gwella ac Ymgynghori), louise.payne@wrexham.gov.uk.

## Arddangosyn 3: pwyntiau dysgu – arfarnu opsiynau

| **Pwyntiau dysgu posibl – arfarnu opsiynau** |
| --- |
| Byddai Cynghorau'n gallu:<br>• ystyried gosod meini prawf, neu adolygu meini prawf presennol, ar gyfer penderfynu ar gynigion am newid gwasanaethau, gan sicrhau eu bod yn ystyried:<br>– goblygiadau'r gwahanol opsiynau o ran cost;<br>– canlyniadau i ymgynghori ac ymgysylltu;<br>– asesiad risg manwl o'r opsiynau sydd ar gael;<br>– yr effaith ddisgwyliedig ar berfformiad;<br>– goblygiadau i gyflogeion;<br>– cysylltiadau â blaenoriaethau corfforaethol;<br>– yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol; a<br>– mesurau lliniaru posibl.<br>• ystyried y meini prawf y mae cynghorau eraill yn eu defnyddio i arfarnu opsiynau er mwyn nodi ffyrdd posibl o gryfhau trefniadau.<br>• sicrhau bod gwybodaeth am opsiynau a newidiadau arfaethedig ar gael yn ddigon cynnar i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn gallu craffu'n ystyrlon, yn ogystal â chaniatáu digon o amser i benderfynwyr roi ystyriaeth briodol i ganfyddiadau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.<br>• adrodd ar yr holl opsiynau pwysig sydd wedi'u hepgor mewn adroddiadau ffurfiol i'r Pwyllgor/Cabinet am gynigion am newid gwasanaethau er mwyn dangos tryloywder ac atebolrwydd. Gellid cynnwys manylion y rheini a oedd wedi penderfynu diystyru'r opsiynau a'r rhesymau dros wneud hynny mewn adroddiadau. |

# Dylai cynghorau ymgynghori â rhanddeiliaid ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau ac mae'r pwysigrwydd o ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynigion ar gyfer newid gwasanaethau yn y dyfodol yn debygol o gynyddu

## Beth roeddem yn chwilio amdano

24 Roeddem wedi chwilio am dystiolaeth bod cynghorau wedi datblygu trefniadau effeithiol i hysbysu rhanddeiliaid am y goblygiadau posibl mewn cynigion am newid gwasanaethau ac i gynnwys rhanddeiliaid mewn penderfyniadau arnynt. Roeddem wedi chwilio am dystiolaeth, nid yn unig o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, ond hefyd o ystyriaeth briodol i'r canlyniadau i weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu wrth benderfynu. Roeddem hefyd wedi chwilio am dystiolaeth bod partïon â buddiant fel y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn gallu dod o hyd yn rhwydd i wybodaeth sy'n berthnasol i benderfyniadau ar newid gwasanaethau, a pha mor glir yw hi iddyn nhw pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau.

## Beth roeddem wedi'i ddarganfod

25 Cawsom nifer o enghreifftiau lle'r oedd ymgynghori manwl neu helaeth wedi'i gynnal ar gynigion am newid gwasanaethau, un ai'n rhan o ymgynghoriad ar gynigion cyllideb yn gyffredinol, neu ar gynigion am newid penodol mewn gwasanaeth, yn cynnwys y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a thechnoleg newydd. Mae rhai cynghorau'n cydnabod bod angen ymgynghori'n well ac ehangach ar newidiadau mewn gwasanaethau, yn enwedig er mwyn adlewyrchu amrywiaeth eu cymunedau lleol yn well, ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Hefyd nid yw'n glir bob amser mewn rhai cynghorau sut mae'r canfyddiadau o ymgynghori wedi'u hystyried wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, nid oedd manylion am ganfyddiadau o ymgynghori wedi'u cynnwys mewn adroddiadau a gyflwynwyd gyda chynigion am newid gwasanaethau, er bod ymgynghori ac ymgysylltu wedi digwydd.

26 Gwelsom ychydig o enghreifftiau hefyd lle mae newidiadau mewn gwasanaethau wedi'u cynnig heb ymgynghori neu ymgysylltu â'r cyhoedd a/neu ddefnyddwyr gwasanaethau.

27 Mae cydweithio'n rhagweithiol â rhanddeiliaid i ystyried a 'chydgynhyrchu' cynigion am newidiadau mewn gwasanaethau yn debygol o ddod yn fwy pwysig, yn enwedig wrth i gynghorau gwrdd â'r gofyniad i ystyried yr agwedd 'cynnwys' ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn cydnabod, yn achos nifer mawr os nad y cyfan o'r cynghorau, fod y rheidrwydd i bennu arbedion wedi'u gorfodi i ddilyn llwybr a oedd yn galw am sicrhau arbedion yn gyflym drwy newidiadau mewn gwasanaethau. Fodd bynnag, mae cydweithio'n agosach â defnyddwyr gwasanaethau i gyd-ddylunio atebion ar sail angen hefyd yn gallu cynnig cyfle i gynghorau ddatblygu ffyrdd mwy effeithlon, darbodus ac effeithiol o ddiwallu anghenion.

28 Mae argaeledd a hygyrchedd y wybodaeth am benderfyniadau gan gynghorau ynghylch newid gwasanaethau yn amrywio'n fawr ymysg y 22 o gynghorau yng Nghymru. Mewn rhai cynghorau, er enghraifft, nid yw'r blaenraglenni gwaith ar gyfer y Cabinet neu'r pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi cael ei diweddaru, neu mae'n anodd dod o hyd iddynt ar eu gwefannau, neu nid ydynt ar gael heblaw yn y papurau ar gyfer gwahanol gyfarfodydd y pwyllgor neu gabinet. Mewn rhai cynghorau, ychydig o fanylion a geir yn y rhaglenni gwaith am eitemau sydd i'w trafod yn y dyfodol, ac nid oes dim i ddangos y pwrpas na'r materion allweddol sy'n debygol o gael eu trafod.

29 Mewn cynghorau eraill, mae rhaglenni gwaith wedi'u hysbysebu'n eang, maent yn gynhwysfawr ac wedi'u diweddaru. Mae cofnodion ac agendâu hefyd ar gael yn rhwydd ac mae peiriannau chwilio effeithiol ar eu cyfer. Yn achos y cynghorau hyn, mae'r cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan a bod yn ymwybodol o benderfyniadau am newid gwasanaethau yn llawer cliriach ac yn fwy tryloyw.

30 Ceir gwahaniaethau hefyd o ran y graddau y mae rhanddeiliaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau. Mewn rhai cynghorau, mae canllawiau clir ar gyfer y broses penderfynu sy'n egluro sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, yn ogystal â mecanwaith clir, er enghraifft, ar gyfer awgrymu eitemau a/neu ddarparu tystiolaeth gan y cyhoedd i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae graddau'r defnydd o weddarlledu mewn cynghorau hefyd yn amrywio: mae'r rhan fwyaf o'r cynghorau'n darlledu cyfarfodydd y Cyngor, rhai'n darlledu cyfarfodydd y Cabinet hefyd, a nifer bach ohonynt yn ymestyn neu'n bwriadu ymestyn hyn i gynnwys rhai neu'r cyfan o gyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

## Rhai dulliau o gynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau ar newid gwasanaethau:

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Ymgynghori, ymgysylltu a chraffu cyn penderfynu:**

  Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yng Nghaerffili wedi gallu rhoi mewnbwn yn gynnar ar rai cynigion pwysig am newid gwasanaethau ac mae hyn wedi'u galluogi i gyflawni rôl eglur yn y broses o fireinio a datblygu cynigion. Mae aelodau o'r cyhoedd sy'n cael mynediad i wefan y Cyngor hefyd yn gallu cael gwybod pa faterion sydd i gael eu hystyried gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, gan fod rhaglenni gwaith ar gael fel dogfennau ar wahân, ac maent yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, ac mae'n hawdd dod o hyd iddynt. Maent hefyd yn rhoi llawer o fanylion am y materion sydd i'w trafod, yn cynnwys y pwrpas a'r materion allweddol. Yn ogystal â hyn, mae tudalen we 'Cymryd rhan yn y broses graffu' gan y Cyngor sy'n egluro sut mae aelodau o'r cyhoedd yn gallu cymryd rhan yn y broses graffu. Mae'r Cyngor wedi hysbysu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch newidiadau mewn gwasanaethau. Er enghraifft, mewn perthynas â newidiadau yn oriau agor y ganolfan gofal cwsmeriaid, roedd rhaglen gyfathrebu glir i roi nifer o gyfleoedd i randdeiliaid gynnig eu barn ac i rybuddio defnyddwyr yn y pen draw am y newidiadau a rhoi gwybod iddynt am y dewisiadau eraill a oedd ar gael. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r dudalen we Cymryd rhan yn y broses graffu neu cysylltwch â Catherine-Forbes Thompson, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, forbecl@caerphilly.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Ymgynghori ar wastraff:**

  Yn 2016, y Cyngor hwn oedd y cyntaf yng Nghymru a Lloegr i dreialu casgliadau pob pedair wythnos ar gyfer gwastraff gweddilliol. Mae'r canlyniadau cyntaf o'r cynllun treialu, sy'n cynnwys tua un ym mhob pump o aelwydydd y Sir, yn dangos cynnydd sylweddol mewn cyfraddau ailgylchu. Roedd y rhan a chwaraewyd gan swyddogion a chynghorwyr allweddol drwy wrando ar breswylwyr a rhanddeiliaid, ac addasu'r cynllun treialu i ymateb i'w pryderon, yn allweddol i'w lwyddiant. Yn benodol, roedd yr 'Arolwg Ailgylchwch Fwy' o'r holl aelwydydd yng Nghonwy yn cynnwys nifer o ddulliau i gasglu barn pobl ac roedd wedi denu mwy na 11,000 o ymatebion. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Andrew Wilkinson, Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth, andrew.wilkinson@conwy.gov.uk.

- **Cyngor Gwynedd – 'Her Gwynedd':**

  Rhwng Medi a Rhagfyr 2015, roedd Cyngor Gwynedd wedi dechrau pennu toriadau posibl ar wasanaethau drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr ledled y Sir lle'r oedd preswylwyr, busnesau a sefydliadau wedi cael eu gwahodd i fynegi barn am 'restr hir' o 118 o opsiynau ar gyfer toriadau posibl ar wasanaethau a oedd yn cael eu hystyried. Cafwyd mwy na 2,100 o ymatebion i'r arolwg oddi wrth breswylwyr, busnesau a sefydliadau yng Ngwynedd. Yn ogystal â hyn, roedd mwy na 615 o aelodau o'r cyhoedd wedi dod i gyfres o 32 o fforymau cyhoeddus neu sesiynau galw heibio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael, gan cynnwys llyfryn ymgynghori a chanlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, ar wefan y Cyngor: Her Gwynedd neu cysylltwch â Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, geraintowen@gwynedd.llyw.cymru.

- **Cyngor Dinas Casnewydd – Comisiwn Tegwch Casnewydd:**

  Cyngor Dinas Casnewydd oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i sefydlu Comisiwn Tegwch yn 2012, ac mae'r Comisiwn yn parhau i weithredu. Mae rôl y Comisiwn wedi'i nodi ar ei dudalen we: 'Mae Comisiynau Tegwch yn gyrff annibynnol a sefydlwyd gan gynghorau i'w cynghori ar y defnyddiau gorau o adnoddau a phwerau i gyflawni'r canlyniadau tecaf ar gyfer y bobl leol. Cyfarfu Comisiwn Tegwch Casnewydd am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2012, y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Ei rôl yw cadw materion yn ymwneud â thegwch ar yr agenda cyhoeddus ac i fonitro a rhoi cyngor ar sut gaiff y materion hyn eu hystyried mewn penderfyniadau a pholisïau'r Cyngor. Mae hyn wedi digwydd o fewn cyd-destun y problemau sydd angen rhoi sylw iddynt gan y ddinas yn ei chyfanrwydd – sef gweinyddu toriadau difrifol i gyllid llywodraeth leol, a waethygir gan y galw cynyddol oherwydd demograffeg, disgwyliadau'n cynyddu a phwysau cyllidebol eraill.'[7] Mae'r Comisiwn Tegwch yn adolygu holl gynigion y Cyngor ar gyfer arbedion a bydd y Cyngor yn ystyried barn y Comisiwn wrth wneud penderfyniadau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i hafan Comisiwn Tegwch Casnewydd neu cysylltwch â one.newport@newport.gov.uk.

7 Comisiwn Tegwch Casnewydd

- **Cyngor Sir Ynys Môn – gweithio mewn partneriaeth i wella ymgynghori ac ymgysylltu:**

  Mae cynigion am newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau yn cael eu datblygu drwy gynnwys y cyhoedd, rhanddeiliaid a staff y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar brotocol ymgynghori cyhoeddus gyda Medrwn Môn, cyngor cymunedol gwirfoddol sy'n darparu arbenigedd mewn ymgysylltu allanol, ac yn cynorthwyo grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Ynys Môn. Drwy'r bartneriaeth hon, mae Medrwn Môn wedi datblygu Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori (y Bwrdd) ar y cyd â'r Cyngor, ac wedi mabwysiadu egwyddorion Lleisiau Lleol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau anodd eu cyrraedd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Cyngor, yn cynnwys swyddogion ac aelodau etholedig, Lleisiau Lleol a staff Medrwn Môn. Mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru[8] er mwyn ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn gyffredinol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Neville Evans, nevilleevans@ynymon.gov.uk neu Gethin Morgan, gethinmorgan@ynysmon.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 'RhCT Gyda'n Gilydd':**

  Er mwyn helpu i gynnal gwasanaethau yng nghyd-destun gostyngiadau mewn cyllid, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithio gyda chymunedau lleol a'r sector gwirfoddol i ystyried modelau darparu amgen, er mwyn asesu'r posibilrwydd iddynt gynnal rhai gwasanaethau na fydd y Cyngor bellach yn gallu eu darparu. Mae'r dull hwn o weithredu yn cynnwys gofyn i'r gymuned leol a'r sector gwirfoddol am fynegiadau o ddiddordeb mewn rhedeg gwasanaethau Cyngor a, lle bo'n briodol, darparu cymorth gan gynnwys help i ddatblygu cynlluniau busnes. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalen RhCT Gyda'n Gilydd neu cysylltwch â Debra Hanney, Swyddog Datblygu Asedau Cymunedol, debra.hanney@rctcbc.gov.uk.

- **Cyngor Bro Morgannwg – Cyfranogi gan y cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor:**

  Mae nifer o gynghorau'n caniatáu i'r cyhoedd ofyn cwestiynau/siarad yng nghyfarfodydd y Cyngor neu ei Bwyllgorau, yn cynnwys Cyngor Bro Morgannwg. Ym Mro Morgannwg, mae'r cyfle hwn yn cael ei hysbysebu'n dda ar wefan y Cyngor, yn cynnwys dolen ar y dudalen flaen 'Annerch Cyfarfodydd y Cyngor' sy'n galluogi ymwelwyr â'r wefan i gael gwybodaeth am y broses drwy glicio'r ddolen ar yr hafan. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalen Annerch Cyfarfodydd y Cyngor neu cysylltwch â Jeff Wyatt, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, jrwyatt@valeofglamorgan.gov.uk.

8 Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

- **Cyngor Sir Benfro – Gweddarlledu cyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

  Yn ogystal â gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet, mae rhai cynghorau, yn cynnwys Cyngor Sir Benfro, bellach yn gweddarlledu holl gyfarfodydd ei Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid cysylltiedig weld y craffu ar gynigion am newid gwasanaethau pan fyddant yn cael eu trafod mewn Pwyllgorau. Mae hyn yn rhoi mwy o gyfle i rannu gwybodaeth â chymunedau am y rhesymau dros dderbyn/gwrthod cynigion, ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer penderfynu ac atebolrwydd yn fwy tryloyw. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i Webcasts neu cysylltwch â Susan Sanders, susan.sanders@pembrokeshire.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen – Mecanweithiau ymgysylltu â'r cyhoedd:**

  Mae'r Cyngor wedi gwneud nifer o drefniadau i hysbysu rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn trafodaethau am newidiadau mewn gwasanaethau, yn cynnwys:

  – cylchgrawn trigolion 'Llais Torfaen' a defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

  – 'Panel y Bobl', sef panel cynghorol o bobl sy'n byw yn Nhor-faen a sefydlwyd gan y Cyngor, sy'n ceisio rhoi cyfle i bobl leol fynegi barn am wasanaethau cyhoeddus a bywyd yn y Fwrdeistref Sirol.

  – mae holl ymgyngoriadau presennol ac arfaethedig y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddinasyddion fynegi eu barn a thynnu sylw at eu disgwyliadau o ran gwasanaethau cyhoeddus lleol.

  – cynnwys staff ac 'Ask Alison' – mae'r Cyngor yn cynnal arolwg blynyddol o staff. Gall staff anfon cwestiynau drwy 'Ask Alison' ar fewnrwyd y Cyngor at y Prif Weithredwr ac mae bwletin electronig wythnosol i staff yn ogystal â 'nodiadau' rheolaidd ar ôl pob cyfarfod o'r Tîm Arwain. Bydd aelodau'r Tîm Arwain hefyd yn cymryd eu tro i ysgrifennu blogiau.

  – cynhaliodd y Cyngor weithdai craffu ar y cyd mewn perthynas â gosod ei gyllideb ar gyfer 2016-17 a'i gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 a 2017-18. Roedd y gweithdai hyn yn agored i'r wasg a'r cyhoedd.

  – defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cynnwys ffrwd Twitter fyw yn ystod cyfarfodydd ei Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae cyfran helaeth o gyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor yn cael eu gweddarlledu'n fyw, a threfnir i'r fideos fod ar gael wedyn i'w gwylio ar-lein.

  – ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid wrth newid gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys craffu a chynnwys y cyhoedd wrth gyflwyno biniau gwastraff cul; a chynnwys cynghorau cymuned wrth wneud newidiadau yn y gwasanaeth toiledau cyhoeddus.

  – I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Richard Edmunds, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, richard.edmunds@torfaen.gov.uk.

- **Cyngor Caerdydd – Ymgysylltu â'r cyhoedd a staff:**

  Sefydlwyd Sgwrs Caerdydd yn 2014 fel rhaglen ymgysylltu cymunedol dros dair blynedd ac mae wedi bod yn rhan annatod o Raglen Datblygu Sefydliadol (DS) y Cyngor. Mae wedi cynnal sgwrs ddi-dor â dinasyddion, cymunedau a phartneriaid. Mae'r dulliau ymgynghori'n cwmpasu gweithdai galw heibio, dadleuon ar gyfryngau cymdeithasol, ymgynghori ar-lein ac ymgysylltu ar y stryd. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn holi preswylwyr am eu bodlonrwydd ar wasanaethau'r Cyngor drwy'r arolwg blynyddol o breswylwyr Caerdydd, Holi Caerdydd, sy'n derbyn ymhell dros 4,000 o ymatebion. Mae cwestiynau am newidiadau penodol mewn gwasanaethau wedi'u cynnwys yn arolwg Holi Caerdydd a Sgwrs Caerdydd. Gwella'r ymgynghori ac ymgysylltu â staff yw un o'r elfennau yn y Rhaglen DS hefyd. Mae'r Cyngor yn cynnal sioeau teithiol ar gyfer cyflogeion sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli, a chyfarfodydd rhwng staff a'r Prif Weithredwr yn rhan o sesiynau mynegi barn. Sefydlwyd Rhwydwaith Cenhadon staff. Ym mis Tachwedd 2016, roedd y Cyngor hefyd wedi lansio 'ap staff' newydd er mwyn cyfathrebu'n well â staff. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Joe Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, Joseph.Reay@cardiff.gov.uk.

## Arddangosyn 4: pwyntiau dysgu – ymgynghori ac ymgysylltu

| **Pwyntiau dysgu posibl – ymgynghori ac ymgysylltu** |
|---|
| Byddai cynghorau'n gallu:<br>• cyflwyno'r canlyniadau/canfyddiadau o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu mewn adroddiadau, achosion busnes neu gynigion ar gyfer arbedion.<br>• ystyried y posibilrwydd o gynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynigion am newid mewn gwasanaethau, yn hytrach na dim ond ymgynghori ac ymgysylltu ar gynigion ar ôl eu penderfynu.<br>• adolygu'r wybodaeth am newidiadau mewn gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd i sicrhau ei bod yn ddigonol ac amserol. Er enghraifft, blaenraglenni gwaith, cofnodion, agendâu ac adroddiadau'r Cabinet, Trosolwg a Chraffu.<br>• ystyried pa mor glir a thryloyw yw'r trefniadau i alluogi rhanddeiliaid i ddeall a chymryd rhan mewn penderfyniadau. Byddai hyn yn gallu cynnwys cymharu â gwefannau cynghorau eraill yn ogystal ag ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o gyfathrebu a hyrwyddo ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau.<br>• ystyried gwahanol ffyrdd o gynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y broses newid gwasanaethau – mae Comisiwn Tegwch Casnewydd a 'RhCT Gyda'n Gilydd' yn enghreifftiau posibl o hyn. |

# Dylai cynghorau ddatblygu trefniadau systematig i fonitro'r effaith o wneud newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau

## Beth roeddem yn chwilio amdano

31 Roeddem yn chwilio am dystiolaeth bod cynghorau'n pennu'r hyn y mae angen iddynt ei fonitro ac yn gwerthuso i asesu effaith eu penderfyniadau i newid gwasanaethau, yn ogystal ag eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol am fonitro'r effaith o benderfyniadau. Roeddem hefyd yn chwilio am dystiolaeth o graffu ar yr effaith o newidiadau mewn gwasanaethau, ac a oedd trefniadau pontio wedi'u cynllunio'n briodol wrth gyflwyno newidiadau mewn gwasanaethau. Yn ogystal â hyn, roeddem wedi ystyried tryloywder y trefniadau ar gyfer monitro'r effaith o newidiadau mewn gwasanaethau ac effeithiolrwydd y trefniadau i fonitro cyllidebau i sicrhau bod yr arbedion disgwyliedig drwy newid gwasanaethau wedi'u gwireddu. Roeddem wedi ystyried sut roedd trefniadau'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd cydraddoldeb i asesu'r effaith o newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

## Beth roeddem wedi'i ddarganfod

32 Mae trefniadau gan nifer o gynghorau ar gyfer monitro cyllidebau i sicrhau bod yr arbedion disgwyliedig o newidiadau mewn gwasanaethau wedi'u gwireddu. Er hynny, mae nifer o gynghorau sydd heb ddatblygu trefniadau systematig eto i fonitro'r effaith ar gymunedau lleol o wneud newidiadau mewn gwasanaethau. Mewn rhai cynghorau, mae trefniadau ar waith sydd heb fod yn dryloyw bob amser, gyda nemor ddim craffu gan y cyhoedd neu ddiffyg eglurder o ran sut a pha bryd y bydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cymryd rhan mewn monitro'r effaith o newidiadau mewn gwasanaethau. Roeddem hefyd wedi gweld enghreifftiau lle'r oedd cynghorau wedi gwneud darpariaeth bendant ar gyfer trefniadau pontio wrth gynllunio newidiadau mewn gwasanaethau.

## Rhai enghreifftiau o drefniadau y mae cynghorau wedi’u rhoi ar waith:

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Craffu systematig wrth fonitro’r effaith o newidiadau mewn gwasanaethau:**

  Mewn ymateb i adolygiad blaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru o benderfynu ar newidiadau mewn gwasanaethau, mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu’r Cyngor wedi’u hymddiried â’r rôl o fonitro’r effaith o newidiadau mewn gwasanaethau yn systematig chwe mis a 12 mis ar ôl cyflwyno newid mewn gwasanaeth. Mae’r adolygiadau hyn yn rhan o flaenraglenni gwaith y pwyllgorau trosolwg a chraffu, ac mae’r Cyngor hefyd wedi ymdrechu i wella manylder yr adolygiadau hyn. Bydd swyddogion sy’n ymwneud â’r newid mewn gwasanaeth yn paratoi adroddiad ac yn ei gyflwyno i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Karyl May, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, karyl.may@rctcbc.gov.uk.

- **Cyngor Sir y Fflint – Monitro effaith a threfniadau pontio:**

  Mae trefniadau tryloyw ar gyfer monitro’r effaith o benderfyniadau ac mae manyleb glir am yr amcanion a’r ffordd o fesur/monitro llwyddiant. Pan gyflwynir newidiadau sylweddol yn y model gweithredu ar gyfer gwasanaethau, fel dull y Cyngor o ymdrin â Modelau Darparu Amgen, dilynir ‘Cynllun Risg Pontio’ i asesu’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r cynnig am newid mewn gwasanaeth, ynghyd â mesurau lliniaru. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Ian Bancroft, ian.bancroft@flintshire.gov.uk.

### Arddangosyn 5: pwyntiau dysgu – monitro a gwerthuso

**Pwyntiau dysgu posibl – monitro a gwerthuso**

Byddai cynghorau’n gallu:

- pennu, wrth wneud penderfyniad, beth fydd y mesurau allweddol o lwyddiant ac effaith ddisgwyliedig y newid mewn gwasanaeth, a pha bryd a chan bwy y bydd yr effaith yn cael ei monitro a’i hadrodd i’r cyhoedd.
- cytuno ar ddull cyffredinol a thryloyw o fonitro effeithiau sy’n nodi’n glir y rolau sydd gan swyddogion/aelodau ac yn cynnwys darpariaeth glir ar gyfer ffyrdd tryloyw o graffu ac adrodd i’r cyhoedd.
- ystyried cyfleoedd i’r cyhoedd, partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau chwarae mwy o ran mewn adolygiadau o’r effaith o newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau, yn cynnwys adrodd i’r cyhoedd mewn ffordd systematig a thryloyw.

## Dylai cynghorau adolygu eu trefniadau penderfynu yn rheolaidd a gwneud newidiadau mewn prosesau penderfynu ar newid gwasanaethau lle bo'n briodol

### Beth roeddem yn chwilio amdano

33 Roeddem wedi chwilio am dystiolaeth bod cynghorau'n adolygu effeithiolrwydd eu trefniadau penderfynu yn rheolaidd, er mwyn nodi unrhyw wendidau a rhoi sylw iddynt. Wrth edrych ar y meysydd hyn, roeddem wedi chwilio am dystiolaeth bod cynghorau'n ceisio dysgu o'u profiadau o gyflwyno newidiadau mewn gwasanaethau ac yn ceisio gwella eu trefniadau.

### Beth roeddem wedi'i ddarganfod

34 Mae'r holl gynghorau'n adolygu eu trefniadau penderfynu drwy ddatblygu eu Datganiadau Llywodraethu Blynyddol. Roeddem hefyd wedi gweld bod nifer o gynghorau'n ystyried ac yn mireinio eu trefniadau ar gyfer cyflwyno newidiadau mewn gwasanaethau gan elwa o'u profiadau, er bod y graddau y mae cynghorau'n mynd ati i nodi a rhoi sylw i wendidau yn eu trefniadau yn amrywio. Mae'n anochel bod risgiau'n codi, wrth wneud newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau ac ni fydd newidiadau sylweddol o'r math hwn yn digwydd fel y bwriadwyd bob amser. Cadarnhaol oedd nodi bod rhai cynghorau wedi dysgu gwersi o ymdrechion blaenorol i gyflwyno newidiadau mewn gwasanaethau a oedd heb lwyddo er mwyn cryfhau eu trefniadau ymhellach.

### Rhai enghreifftiau o'r dulliau yw:

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – parhau i fireinio trefniadau drwy hunanadolygu:**

  Mae'r Cyngor wedi parhau i adolygu a mireinio ei drefniadau llywodraethu ar gyfer cyflwyno newidiadau mewn gwasanaethau, ac wedi gwneud nifer o newidiadau graddol. Rhai enghreifftiau o newid yw ailstrwythuro cofrestr risgiau, templed adroddiadau a thempled achosion busnes y Cyngor i adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno Gweithdai Cabinet gyda Phrif Swyddogion i herio a chraffu ar gynigion am newidiadau mewn gwasanaethau o ganlyniad i adborth oddi wrth Aelodau Cabinet. Yn fwy diweddar, mae swyddogion hefyd wedi nodi'r angen i gryfhau'r rôl craffu mewn penderfyniadau ar newidiadau mewn gwasanaethau, a hefyd i gryfhau trefniadau ar gyfer monitro'r effaith o newidiadau mewn gwasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Andrew Mogford, Rheolwr Newid Busnes, andrew.mogford@merthyr.gov.uk.

- **Dinas a Sir Abertawe – Diwrnodau cwrdd i ffwrdd y Cabinet:**

  Mae'r Cyngor wedi cynnal diwrnodau cwrdd i ffwrdd i'r Cabinet bob pen blwyddyn yn fras ar ôl dechrau ei broses Adolygu Comisiynu, yn gyntaf yn Hydref 2015 ac wedyn ym Medi 2016. Pwrpas y diwrnodau cwrdd i ffwrdd oedd ystyried beth oedd wedi llwyddo a beth oedd heb lwyddo, a dilyn y canlyniadau i'r argymhellion a wnaed yng ngweithdai blynyddoedd cynt. O ganlyniad i'r gwersi a ddysgwyd ar y diwrnodau hyn, rhoddwyd mwy o bwys ar y cam cwmpasu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys materion trawsbynciol, yn peidio â rhoi sylw i'r gwasanaeth yn unig, ac yn cynnwys ystyriaeth i fesurau atal, diwylliant ac egwyddorion rheoli'r galw, o safbwyntiau y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Sarah Caulkin, sarah.caulkin@swansea.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – trosolwg a chraffu ar drefniadau cydweithio:**

  O ganlyniad i'r gwersi a ddysgwyd o gydweithio blaenorol yn 2013, mae'r Cyngor wedi datblygu Canllawiau Gweithredu Cydweithio y mae'n rhaid cyfeirio atynt wrth gyflawni newid sylweddol mewn gwasanaeth. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y canllawiau hyn a Fframwaith Rheoli Prosiectau y Cyngor ac roedd yn sicrhau newid o ran monitro a graddau'r craffu gan aelodau mewn trefniadau cydweithredol er mwyn cryfhau llywodraethu. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Roberts, Rheolwr Moderneiddio Corfforaethol emma.roberts@conwy.gov.uk.

- **Cyngor Bro Morgannwg – Cryfhau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb:**

  Yn dilyn her drwy adolygiad barnwrol i newid arfaethedig mewn gwasanaeth, roedd y Cyngor wedi cydnabod bod cyfleoedd i gryfhau'r trefniadau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i ystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau. Yn awr mae'r Cyngor yn cynnwys elfennau penodol o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau yng nghorff yr adroddiad yn hytrach nag yn yr Atodiad yn unig. Drwy gynnwys gwybodaeth fwy manwl yn y prif adroddiad, rhoddir mwy o sylw i ystyriaethau o ran cydraddoldeb ac mae hyn yn cyfrannu at benderfynu mwy gwybodus. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi cynnwys 'seibiannau' yn y broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bydd yn ofynnol bod swyddogion mewn meysydd gwasanaeth sy'n cwblhau'r asesiadau'n cysylltu â'r tîm cydraddoldebau corfforaethol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Huw Isaac, Pennaeth Perfformiad a Datblygu, hisaac@valeofglamorgan.gov.uk.

- **Cyngor Caerdydd – Adolygiad gan Gymheiriaid o’r Rhaglen Datblygu Sefydliadol:**

  Mae’r Cyngor yn adolygu ac yn diweddaru ei Raglen Datblygu Sefydliadol (DS) bob blwyddyn. Cyflwynir yr adolygiad blynyddol i Bwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad a Chabinet y Cyngor. 2016-17 oedd blwyddyn olaf y Rhaglen DS bresennol. Roedd y Cyngor wedi comisiynu adolygiad annibynnol o’r Rhaglen DS yn 2017. Y bwriad yw y bydd hyn yn cyfrannu at ffurf a phwrpas y Rhaglen DS ar gyfer y dyfodol.

  Yn ogystal â hyn, mae’r Cyngor wedi datblygu Hunanasesiad Risg Rheolaeth i roi sicrwydd ar gyfer prosiectau’r Rhaglen DS yn ystod eu gwahanol gamau. Mae’r tîm Archwilio Mewnol wedi treialu’r hunanasesiad ar rai o brosiectau’r Rhaglen DS. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Sue Powell, Archwilydd Grŵp, sue.powell@cardiff.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – adolygu newidiadau mewn gwasanaethau ar sail Model Integredig Cymunedol:**

  Mae’r Cyngor wedi cynnal adolygiad ffurfiol o’r newidiadau mewn gwasanaethau drwy ddefnyddio’r Model Integredig Cymunedol. Cyflawnwyd hyn gyda chymorth gan eiriolwyr allanol er mwyn gofyn am farn pobl am y gwasanaeth newydd ar ôl ei ailfodelu ac er mwyn ystyried y daith a ddilynwyd gan bawb a oedd yn gysylltiedig, yn cynnwys rhieni/gofalwyr a thimau rheng flaen. Daeth yr adroddiad i’r casgliad y dylid comisiynu eiriolwyr allanol wrth ailfodelu gwasanaethau yn y dyfodol i gynorthwyo unigolion sy’n profi effaith y newid yn uniongyrchol. Yn ystod y broses, gofynnwyd i eiriolwyr hwyluso gweithdai annibynnol ar yr ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau bod yr adborth yn ddiduedd. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Lisa Livingstone – Rheolwr Prosiect Gofal Cymunedol, l.e.livingstone@npt.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – gwerthuso'r canlyniadau i ymgynghori:**

  Ar gyfer pob ymgynghoriad a gynhelir ar newid mewn gwasanaeth, bydd y Cyngor hefyd yn paratoi adroddiad gwerthuso ar y broses ymgynghori er mwyn dysgu gwersi a gwella ei drefniadau ymgynghori.

  Yn 2015-16 roedd y Cyngor wedi defnyddio nifer o ddulliau gwahanol i ymgynghori ar gynigion am newid gwasanaethau. Mae adroddiad y Cyngor yn disgrifio'r mesurau cynhwysfawr i ddosbarthu deunyddiau ymgynghori, a oedd yn cynnwys:

  – dosbarthu mwy na 47,000 o gopïau o'r llyfryn ymgynghori.

  – anfon copïau electronig o'r llyfryn at 25,000 o ddeiliaid cardiau llyfrgell y Cyngor.

  – trefnu i gopïau o'r deunyddiau fod ar gael mewn meddygfeydd, yn llyfrgelloedd y Cyngor, mewn canolfannau hamdden, yn swyddfeydd Cymunedau yn Gyntaf ac mewn canolfannau One4All.

  – cynhyrchu fideo YouTube i ddarparu cyflwyniad hawdd ei ddeall i'r ymgynghoriad, i egluro sut y byddai pobl yn gallu cymryd rhan, a hefyd i ddarparu manylion am y cynigion ar gyfer newid gwasanaethau.

  – hyrwyddo'r ymgynghoriad yn eang yn y wasg a thrwy gyfryngau cymdeithasol, yn cynnwys cyfrif Twitter y Cyngor.

  – 13 o sesiynau ymgysylltu. Cynhaliwyd sesiwn hefyd ym mhob un o'r pump Meithrinfa Dydd yn unswydd i drafod y cynigion ar gyfer Meithrinfeydd Dydd. Cynhyrchwyd fersiynau o'r llyfryn ymgynghori hefyd ar gyfer pobl ifanc i'w defnyddio mewn sesiynau o Fforymau Ieuenctid a Chynghorau Ysgol. Cafodd pobl ifanc eu gwahodd hefyd i ddigwyddiad ymgysylltu penodol ar gyfer ieuenctid yn siambr y Cyngor yng Nghwm Clydach.

  Cafwyd mwy na 500 o ymatebion i'r Ymgynghoriad. Roedd holiaduron am newidiadau mewn gwasanaethau yn holi ymatebwyr nid yn unig am eu barn ond hefyd am natur yr effaith o'r newidiadau mewn gwasanaethau arnyn nhw fel defnyddwyr gwasanaethau neu ar eu teuluoedd. Mae hyn yn helpu'r Cyngor i asesu effaith newidiadau arfaethedig ac nid i ganfod a yw rhywun yn cytuno neu'n anghytuno â chynnig yn unig. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chris Davies, Swyddog Polisi Corfforaethol ac Ymgynghori, christopher.s.davies@rctcbc.gov.uk.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – adolygu trefniadau ar gyfer cyflwyno newidiadau mewn gwasanaethau:**

  Mae'r Cyngor wedi adolygu ei drefniadau ar gyfer pennu, cymeradwyo a gweithredu newidiadau mewn gwasanaethau yn rhan o'i broses gosod cyllideb ar gyfer 2015-16. Roedd swyddogion y Cyngor wedi casglu canlyniadau'r adolygiad hwn mewn adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu ar y Cyd (Monitro Cyllidebau) y Cyngor ym Medi 2016. Roedd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at gamau a gymerwyd i weithredu argymhellion o adolygiad tebyg a gynhaliwyd yn 2014-15, ac at wersi a ddysgwyd drwy'r broses gosod cyllideb ar gyfer 2015-16.

  I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Stephen Gillingham, Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Dros Dro, stephen.gillingham@blaenau-gwent.gov.uk.

Arddangosyn 6: pwyntiau dysgu – adolygu trefniadau llywodraethu

| **Pwyntiau dysgu posibl – adolygu trefniadau llywodraethu** |
|---|
| Byddai cynghorau'n gallu:<br>• rhoi trefniadau rheolaidd ar waith i ddysgu gwersi ar ôl cwblhau prosiectau neu gynnal gweithgareddau tebyg yn dilyn penderfyniadau ar yr holl newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau, ac adrodd ar y canfyddiadau o'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau llwyddiannus ac aflwyddiannus i gynghorwyr a swyddogion;<br>• cymryd camau i geisio rhannu'r profiadau a'r gwersi a ddysgwyd mewn cynghorau eraill yng Nghymru wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau wrth ddatblygu trefniadau llywodraethu ymhellach, yn enwedig cyn ymgymryd ag unrhyw newid mawr mewn gwasanaeth;<br>• canmol llwyddiant a dysgu o fethiant – mae ymdrechion aflwyddiannus i gyflwyno newid mewn gwasanaethau yn ffynhonnell dysgu werthfawr ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu. Mae ymchwilio a rhannu'r gwersi o 'fethiant' yn ffordd effeithiol o wella penderfyniadau yn y dyfodol. Mae hefyd yn gallu dangos a chyfleu bod y Cyngor yn dysgu i reoli risgiau'n well yn y dyfodol. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls
in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru